O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1823 (Cy. 197)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Travellers' Rest i Gylchfan Pen-sarn, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Gorffennaf 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Awst 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Travellers' Rest i Gylchfan Pen-sarn, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19.00 o'r gloch ar 1 Awst 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffordd Llundain – Abergwaun yr A40 o Travellers' Rest i Gylchfan Pen-sarn yn Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd (A48/A40) (Caerfyrddin, Dyfed) (Codi'r Cyfyngiadau) 1983 (Amrywio) 2005**(3)** drwy hyn wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Gorffennaf 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2005/67/W5.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rhychwant y terfynau cyflymder 40 MYA a 10 MYA dros dro

1. Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Travellers' Rest hyd at bwynt 339 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

2. Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 500 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

## ATODLEN 2

Rhychwant y gwaharddiad dros dro ar bob cerbyd

1. Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â'r ffordd ymadael yn Travellers' Rest hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

2. Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt wrth ei chyffordd â'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn Nhre Ioan.

3. Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain yn Nhre Ioan.

4. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael yn Nhre Ioan.